

DATGELU CAMARFER I GOMISIYNYDD PLANT CYMRU



1. Beth mae Comisiynydd Plant Cymru yn ei wneud?

Sefydliad hawliau plant annibynnol a sefydlwyd yn 2001 yw Comisiynydd Plant Cymru. Ei phrif nod yw diogelu a hybu hawliau a lles plant.

Mae pwerau statudol Comisiynydd Plant Cymru yn deillio o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (fel y'i newidiwyd gan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001) a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001. Mae'r ddeddfwriaeth yn cyflwyno rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd Plant Cymru.

2. Beth yw datgelu camarfer?

Datgelu camarfer yw datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag amheuon ynghylch camweithredu, peryglon neu risg yn y gwaith. Gall hyn gynnwys:

- Gweithgaredd troseddol
- Camweinyddu cyfiawnder
- Perygl neu risg i iechyd a diogelwch
- Niwed i'r amgylchedd
- Methiant i gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu broffesiynol neu ofynion rheoliadol
- Llwgwrwobrwyo
- Twyll ariannol neu gamreoli
- Esgeulustod
- Mynd ati'n fwriadol i gelu unrhyw rai o'r materion uchod
Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth.

3. Pwy yw rhywun sy'n datgelu camarfer?

Rhywun sy'n datgelu camarfer yw person sy'n mynegi pryder dilys ynghylch unrhyw un o'r uchod.

4. Pa amddiffyniad sydd ar gael i'r rhai sy'n datgelu camarfer?

Diben Deddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998 (y "Ddeddf") yw amddiffyn y rhai sy'n datgelu camarfer.

Yn y paragraff hwn fe sylwch fod rhai geiriau wedi'u hamlygu. Mae gan y geiriau hyn ystyr penodol sydd wedi'i diffinio yn y ddeddfwriaeth.

Mae'r Ddeddf yn creu dwy lefel o amddiffyniad:

- bydd diswyddo 'cyflogai' yn awtomatig yn annheg os yw'r ffaith ei f/bod wedi gwneud 'datgeliad a amddiffynnir' yn rheswm, neu'n brif reswm dros ei (d)diswyddo
- bydd 'gweithwyr' yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw effaith niweidiol os ydynt wedi gwneud 'datgeliad a amddiffynnir'.

Mae'r Ddeddf yn annog datgelu i gyflogwyr y gweithiwr fel prif ddull o ddatgelu camarfer.

Gall datgelu i drydydd parti, megis Comisiynydd Plant Cymru (sy'n 'berson a ragnodwyd' at ddibenion y Ddeddf) gael ei amddiffyn os bodlonir amodau penodol.

Nid oes awdurdod gennym ni i roi cyngor cyfreithiol. O'r herwydd, ni allwn eich cyngori ynghylch a fydd eich datgeliad yn cael ei amddiffyn o dan y Ddeddf neu beidio (yr enw ar ddatgeliad sy'n cael ei amddiffyn o dan y Ddeddf yw 'datgeliad a amddiffynnir').

Serch hynny, ym mharagraff 13 isod rydym wedi nodi sefydliadau a allai eich helpu os bydd angen rhagor o fanylion neu gyngor arnoch.

5. Pam byddech chi'n cysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru?

Os ydych chi'n pryderu am gamweithredu, perygl neu risg tybiedig yn eich gweithle (neu eich gweithle blaenorol) sy'n effeithio ar hawliau a buddiannau plant Cymru, mae nifer o resymau pam y gallech ddymuno cysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru, er enghraifft:

- Rydych yn teimlo na roddwyd sylw priodol i'ch pryder trwy bolisi datgelu camarfer mewnol eich cyflogwr neu gan reoleiddiwr rhagnodedig
- Rydych yn ofni erledigaeth yn eich gweithle
- Rydych chi'n teimlo, petaech chi'n mynegi eich pryderon, y byddai'r mater yn cael ei guddio
- Rydych chi'n teimlo bod y pryder yn un eithriadol o ddifrifol.

6. Sut gall Comisiynydd Plant Cymru fod o gymorth?

Mae ein Tîm Ymchwiliadau a Chyngor yn gallu:

- trafod eich pryderon gyda chi; ac

- ystyried a all Comisiynydd Plant Cymru weithredu trwy ddefnyddio ei phwerau statudol.

Gall Comisiynydd Plant Cymru:

- ymchwilio i weld a yw cyrff cyhoeddus penodol yn cyflawni eu rhwymedigaethau a'u cyfrifoldebau'n briodol
- adolygu polisiau cwynion, eiriolaeth, a datgelu camarfer cyrff cyhoeddus penodol, a sicrhau bod y polisiau hynny'n effeithiol
- siarad â Llywodraeth Cymru ynghylch materion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru

O dan rai amgylchiadau gall Comisiynydd Plant Cymru hefyd gymryd camau anffurfiol i geisio datrys y pryder a ddatgelwyd.

Byddwn ni'n trafod ymhellach gyda chi pa gamau y gallai Comisiynydd Plant Cymru eu cymryd, a pha gefnogaeth allai gael ei darparu i chi o dan y fath amgylchiadau.

7. Beth gallwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Os byddwch chi'n rhoi galwad i ni i wneud datgeliad, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi:

- a ydyn ni'n gallu gweithredu ac os felly, beth fydd y camau gweithredu hynny a sut gallwn ni eich cefnogi
- os na allwn ni weithredu ond os oes modd, byddwn ni'n eich cynghori ynghylch pwy arall gallech chi ddymuno cysylltu â nhw a fydd o bosib yn gallu cynorthwyo.

8. Beth mae Comisiynydd Plant Cymru yn methu gwneud

Allwn ni ddim:

- rhoi unrhyw gyngor cyfreithiol
- ymwneud ag unrhyw achwyniad neu gwyn sydd gennych yn erbyn eich cyflogwr
- cyflwyno erlyniadau troseddol
- cymryd unrhyw gamau sydd y tu hwnt i bwerau statudol Comisiynydd Plant Cymru

9. Beth bydd Comisiynydd Plant Cymru eisiau gwybod?

- Er mwyn medru canfod y ffordd orau i Gomisiynydd Plant Cymru ymdrin â'r pryderon yr ydych yn eu codi, mae'r cwestiynau canlynol yn debygol o gael eu gofyn:
- Beth rydych chi wedi tystio iddo?
- Beth yw'r risg sydd dan sylw?
- I bwy rydych chi'n gweithio (neu roeddech chi'n arfer gweithio pan gododd y pryderon rydych chi am roi gwybod amdanynt)
- Ydych chi wedi dilyn eich polisi datgelu camarfer eich hun?
- Pam rydych chi eisiau datgelu'r camarfer nawr?
- A oes cydweithiwr, goruchwyliwr neu uwch reolwr y gallech chi fynd â'ch pryderon atyn nhw?
- Oes yna bobl eraill sy'n barod i godi llais gyda chi?
- Ydych chi wedi gofyn am gyngor o unrhyw ffynhonnell arall (undeb, corff ymgynghorol neu gyfreithiwr)?
- Ydych chi wedi gwneud yr un datgeliadau neu rai tebyg i unrhyw un arall?

10. Cyfrinachedd

Rydyn ni'n deall y gallech chi fod yn pryderu ynghylch sut bydd y datgeliad yr ydych am ei wneud yn effeithio arnoch chi.

Gallwch chi ein ffonio ni'n ddienw. Bydd unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth ond os bydd un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- mewn achosion lle mae pryder ynghylch diogelu plant, byddwn ni'n dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- pan fyddwch chi'n rhoi caniatâd i ni rannu'r wybodaeth.

11. Pwyntiau i'w Nodi

Wrth ddatgelu camarfer, rydych chi'n dyst yn hytrach nag yn achwynydd, ac amheuan rhesymol yn unig sydd eu hangen arnoch o ran eich pryderon. Ni ddylech geisio ymchwilio i'r mater eich hunan.

Nid oes cyfyngiad amser yng nghyswllt datgelu camarfer (er y gall fod yn anoddach casglu tystiolaeth wedi i amser fynd heibio).

Rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n ceisio cyngor cyfreithiol pellach ynghylch y canlynol:

- Pa fesurau amddiffyn sydd ar gael i chi wrth ddatgelu camarfer o dan y Ddeddf

- A yw eich datgeliad wedi'i amddiffyn o dan y Ddeddf os yw'n cael ei ddefnyddio'n sail ar gyfer hawliad i'ch amddiffyn eich hun neu i sicrhau neu wella setliad.
- Pa amddiffyniad sydd ar gael o dan y Ddeddf os byddwch chi'n gwneud datgeliad i'r cyfryngau.

Rydym wedi darparu manylion ym mharagraff 13 isod ynghylch sut mae cael hyd i gyfreithiwr lleol.

12. Cysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru

Os byddwch am fynegi pryder, cysylltwch â ni a gofynnwch am siarad ag aelod o'r tîm Ymchwiliadau a Chyngor. Mae ein manylion isod:

Comisiynydd Plant Cymru
Tŷ Ystumllwynarth
Ffordd Ffenics
Llansamlet
Abertawe
SA7 9FS
01792 765600
FFACS: 01792 765601
post@complantcymru.org.uk

13. Rhagor o Wybodaeth a Chyngor

Efallai y byddwch hefyd yn dymuno cysylltu â'r sefydliadau canlynol i gael rhagor o gyngor a chymorth:

- (i) Public Concern at Work

I gael cyngor annibynnol, di-dâl ynghylch gwneud datgeliad, gallwch chi gysylltu â:

Public Concern at Work;
Llinell Gyngor: 020 7404
6609, whistle@pcaw.org.uk
<http://www.pcaw.org.uk>

Elusen datgelu camarfer yw Public Concern at Work, ac maen nhw'n gallu rhoi cyngor cyfrinachol. Mae ymgynghorwyr PCAW wedi derbyn hyfforddiant cyfreithiol, ac mae cyfreithwyr cymwysedig yn goruchwyllo'r cyngor maen nhw'n ei roi. Eu nod yw helpu i gael hyd i'r ffordd orau o fynegi pryder ochr yn ochr â lleiafu unrhyw risg a mwyafu'r cyfle i unioni unrhyw gamweithredu. Nid ydynt yn ymchwilio i achosion. Serch hynny, fe allan nhw eich cyfeirio at asiantaethau eraill a fydd o bosib yn gallu helpu.

(ii) Cyngor Cyfreithiol

Mewn achosion lle na all PCAW eich helpu, efallai y byddwch am sicrhau cyngor cyfreithiol annibynnol yng nghyswllt materion cyflogaeth. Gallwch gysylltu â Chymdeithas y Cyfreithwyr i gael hyd i gyfreithiwr sy'n arbenigo mewn cyfraith cyflogaeth yn eich ardal chi. Gallwch wneud hynny ar-lein www.lawsociety.org.uk/find-a-solicitor/ neu dros y ffôn: 020 7320 5650 neu drwy gyflwyno ffurflen gysylltu: <http://www.lawsociety.org.uk/get-in-touch>. Mae'n debygol y bydd yn rhaid i chi dalu am y cyngor cyfreithiol hwn, er y bydd rhai cwmnïau o bosib yn gwneud gwaith ar sail pro-bono o dan rai amgylchiadau cyfyngedig.

Ebrill 2017